

# Yr Iaith Gymraeg – Ein Hiaith: Ei Dyfodol (Iaith Pawb)

## Cyngor i gefnogi gweithredu agweddau ar adolygiad polisi Pwyllgor ADGO



**Estyn**

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg  
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
For Education and Training in Wales

...Rhagoriaeth i bawb... ..Excellence for all...



**BUDDSODDWR MEWN POBL**  
**INVESTOR IN PEOPLE**

© Hawlfraint y Goron. Gellir atgynhychu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW

Ffôn: 02920 446446

Ffacs: 02920 446448

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cynnwys****Tudalen**

1.	Cyflwyniad	1
2.	Argymhellion	3
3.	Parhad	6
4.	Blynyddoedd Cynnar	8
5.	Ysgolion cynradd	10
6.	Ysgolion uwchradd	14
7.	Addysg Bellach	21
8.	Cymraeg i Oedolion	22
9.	Ieuenctid	25
10.	Awdurdodau Addysg Lleol	26
11.	Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn Sefydliadau Addysg Uwch	30
12.	Dysgu yn y gweithle	32
13.	Gyrfaoedd	33
14.	Casgliad	34

## 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn diweddarar'r cyngor a luniwyd gan Estyn ym mis Ebrill 2002 fel rhan o adolygiad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r iaith Gymraeg mewn addysg. Ers hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi **iaith Pawb**, sef cynllun gweithredu sy'n amlinellu cyfres o strategaethau a thargedau i gryfhau darpariaeth a safonau'r Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant. Nid yw'r adroddiad yn arfarniad o gynnydd yn erbyn y targedau penodol a nodir yn 'iaith Pawb', ond yn hytrach, mae'n edrych yn fwy cyffredinol ar gynnydd dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae'n cynnig trosolwg o 'gyflwr y genedl' mewn perthynas â safonau mewn Cymraeg fel pwnc a'r ddarpariaeth mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Caiff ei drefnu'n adrannau ar sectorau mewn addysg a hyfforddiant mewn trefn lled gronolegol, gan ddechrau gyda'r blynyddoedd cynnar. Rhennir pob adran yn isbenawdau sef canfyddiadau, nodweddion da a meysydd pryder. Mae'r adroddiad yn dechrau gyda chrynodeb o'r prif ganfyddiadau: gan gynnwys nodweddion da ac argymhellion ar gyfer cynnydd yn y dyfodol.

Mae'r papur wedi tynnu ar y dystiolaeth o adroddiadau arolygiadau 2002-2004 ynghylch safonau mewn Cymraeg yn y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## 2. Prif ganfyddiadau ac argymhellion

### Nodweddion da

#### Sector cyn-ysgol a sylfaen

- Yn gyffredinol, gwna plant ifanc yn y sector a gynhelir ac yn y grwpiau chwarae cyfrwng Cymraeg yn y sector na chynhelir gynnydd da mewn Cymraeg.

#### Addysg cyn 16 oed a pharhad rhwng cyfnodau allweddol

- Dynoda canlyniadau'r asesiadau mewn Cymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn 2003 fod ysgolion mewn lle da i fodloni targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2004 gan fod y canlyniadau'n gwella.
- Mae canolfannau iaith ar gyfer pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg ac sy'n newydd i ardaloedd Cymraeg eu hiaith, yn aml yn gweithio'n effeithiol ac yn paratoi disgyblion yn dda i ymuno â dosbarthiadau dwyieithog/cyfrwng Cymraeg pan fyddant yn dychwelyd i'w hysgolion.
- Mae canran y dosbarthiadau gyda safonau da neu dda iawn yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 mewn Cymraeg fel iaith gyntaf yn gymharol uchel, o gymharu â phynciau eraill a arolygwyd.
- Mae cyfran y disgyblion mewn ysgolion uwchradd a aseswyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu'n araf yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 er y ceir gormod o amrywiaeth rhwng AALLau mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg eu hiaith.

- Mae tueddiadau yn y ceisiadau arholiadau TGAU yn dangos cynnydd o 1% yn niferoedd y disgyblion sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer arholiadau mewn Cymraeg fel iaith gyntaf dros ddwy flynedd.

### **Addysg a hyfforddiant ôl-16**

- Mae tueddiadau mewn ceisiadau arholiadau ôl-16 yn dangos cynnydd o chew phwynt canran mewn ceisiadau safon uwch a 17 pwynt canran mewn ceisiadau safon UG mewn Cymraeg fel iaith gyntaf.
- Mae canran y dysgwyr sy'n cael graddau A a B mewn arholiadau safon uwch yn dangos tuedd araf am i fyny yn gyffredinol dros y ddwy flynedd diwethaf o 47% yn 2001 i 51%.
- Ceir arfer dda mewn addysgu cyfrwng Cymraeg ac addysgu dwyieithog mewn rhywfaint o addysg bellach sy'n deilwng o ledaeniad ehangach.
- Cafwyd twf sylweddol yn nifer y cyrsiau Cymraeg i oedolion a gynhaliwyd yn y gweithle er lles cyflogwyr a chyflogeion mewn rhai mannau o Gymru.
- Mae rhai lleoliadau gwaith mewn dysgu yn y gweithle yn gweithredu'n effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn helpu hyfforddeion i gynnal a gwella eu medrau iaith.
- Yn y rhan fwyaf o leoedd, mae pobl ifanc a rhieni sy'n dymuno cael cyngor gyrfaoedd trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael darpariaeth yn hawdd.

### **Awdurdodau Addysg Lleol**

- Mae rhai AALLau wedi cynyddu niferoedd y disgyblion sy'n parhau ar y llwybr Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3 ac sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**

- Mae deunyddiau hyfforddi athrawon newydd ar gyfer athrawon cynradd dan hyfforddiant ar gyfer Cymraeg fel ail iaith a chyhoeddiadau mwy cyffredinol yn helpu cefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

### **Argymhellion**

#### **Sector cyn-ysgol a sylfaen**

- Ar ôl egluro'r gofynion i gyflwyno dwyieithrwydd yn y cyfnod sylfaen, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac AALLau nodi gallu athrawon sylfaen yn y Gymraeg.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac AALLau gynnig hyfforddiant i athrawon ac arweinwyr grwpiau chwarae fel y gallant weithio'n ddwyieithog.

- Dylai ACCAC lunio arweiniad manwl ar gyfer arweinwyr grwpiau chwarae ac athrawon meithrin fel y gallant gyflwyno cwricwlwm dwyieithog.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac AALLau fonitro darpariaeth er mwyn codi safonau dwyieithrwydd yn y cyfnod sylfaen.

### **Addysg cyn-16 oed a pharhad rhwng cyfnodau allweddol**

#### **Dylai AALLau ac ysgolion:**

- ymgymryd â chynllunio i'r dyfodol i ystyried niferoedd cynyddol y disgyblion sy'n dymuno dewis addysg cyfrwng Cymraeg;
- gwella cyfleoedd dilyniant i sicrhau gwell parhad mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn enwedig rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 trwy gynllunio'r cyfnod pontio'n fwy gofalus;
- annog mwy o ddisgyblion sydd wedi dilyn Cymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 1 a 2 i barhau i wneud hynny yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 trwy gynnig arweiniad a chefnogaeth glir;
- cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion sy'n cymryd Cymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith i ddefnyddio'u Cymraeg mewn pynciau eraill yn y cwricwlwm i ymestyn eu hyfedredd a'u rhuglder yn y sector cynradd;
- annog mwy o ddisgyblion sy'n medru'r Gymraeg i gyflawni asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol a'u harholiadau mewn mathemateg a gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg;
- datblygu arbenigedd staff yn y Gymraeg ac yn yr addysgeg gysylltiedig er mwyn gwella addysgu Cymraeg fel ail iaith.
- annog mwy o ddisgyblion i sefyll arholiadau allanol yn y Gymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 trwy glustnodi o leiaf awr yr wythnos o amser addysgu ar gyfer cyrsiau byr ac o leiaf 2 awr yr wythnos ar gyfer y cwrs TGAU llawn; a
- gwella canran y disgyblion sy'n cael graddau uwch ar y cwrs TGAU byr mewn Cymraeg fel ail iaith.

### **Addysg ôl-16**

- Dylai cynllunio cwricwlwm y **chweched dosbarth** wneud y gorau o gyfleoedd i ddisgyblion barhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

### **Dylai sefydliadau addysg bellach:**

- ddatblygu strategaethau marchnata i annog mwy o fyfyrwyr i ddewis cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn addysg bellach;
- codi nifer yr athrawon mewn addysg bellach sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog trwy hyfforddi siaradwyr Cymraeg presennol ar y staff i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- datblygu strategaethau marchnata ar gyfer grwpiau targedig er mwyn cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg; a
- gwella cyfraddau dilyniant i gyrsiau lefel uwch mewn Cymraeg i Oedolion er mwyn cynhyrchu canran uwch o siaradwyr Cymraeg rhugl.

### **Dylai'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa ddatblygu:**

- strategaeth genedlaethol glir i lywio datblygiadau yn y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion; a
- rhesymoli trefniadau'r consortia presennol i gyflwyno gwasanaeth mwy effeithiol.

### **Dylai Gwasanaethau Ieuentid Awdurdodau Lleol:**

- gynnig deunyddiau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn Gymraeg ar gyfer gwasanaethau ieuentid ym mhob awdurdod;
- cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn gwaith ieuentid a gwasanaethau cysylltiedig; a
- pharatoi cynlluniau gweithredu i gynnwys data a gweithredoedd dilynol i ehangu ystod y cyfleoedd ar gyfer staff a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hamser hamdden.

### **Dylai Awdurdodau Addysg Lleol:**

- ddatblygu strategaethau i godi ymwybyddiaeth rhieni o fanteision dwyieithrwydd a marchnata'r ddarpariaeth ddwyieithog; ac
- ystyried strategaethau i ddarparu dulliau amgen o gyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau allweddol 4 ac mewn darpariaeth ôl-16 lle ceir prinder athrawon cyfrwng Cymraeg.

## **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**

### **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- barhau i geisio ffyrdd, gan gynnwys cynnig cymhellion ariannol, i ddenu mwy o athrawon dan hyfforddiant i ddilyn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n eu paratoi'n effeithiol i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog neu i addysgu Cymraeg fel pwnc; a
- chefnogi hyfforddiant iaith Gymraeg cyn-cwrs ar gyfer darpar athrawon. Byddai cynnig cwrs haf chwe wythnos amser-llawn yn ddigon i gael effaith sylweddol ar alluoedd iaith Gymraeg darpar athrawon.

### **Dylai sefydliadau Addysg Uwch:**

- ddatblygu eu cwrs datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys mwy o fodiwlau cyfrwng Cymraeg ar wahanol lefelau o ddyfarniad ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf ac ail iaith.

### **Dylai darparwyr dysgu yn y gweithle:**

- wella cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith cyfrwng Cymraeg a datblygu mwy o ddeunyddiau cyfrwng Cymraeg i gefnogi hyfforddeion;
- cynyddu niferoedd yr hyfforddwyr a'r aseswyr mewn dysgu yn y gweithle sy'n gallu gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gynnig cyfleoedd i gymryd cyrsiau Cymraeg yn y gweithle; ac
- annog mwy o hyfforddeion yn y gweithle i barhau i ddatblygu eu medrau trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol trwy farchnata cyrsiau teilwredig Cymraeg i Oedolion yn fwy effeithiol.

### **Dylai cwmnïau gyrfaedd:**

- wella defnydd ac argaeledd gwybodaeth am y farchnad lafur sy'n gysylltiedig â defnyddio'r iaith Gymraeg a'r galw amdani; a
- chynnig cyflwyno eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg trwy recriwtio a hyfforddi mwy o staff dwyieithog yn fwy effeithiol fel y gellir gweithredu polisïau dwyieithog.

### **3. Parhad**

#### **Parhad mewn Cymraeg fel iaith gyntaf**

Mae nifer cyflawn y disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ym mhroffion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3 yn dangos cwymp sylweddol yn genedlaethol o gymharu â'r niferoedd yng nghyfnod allweddol 2. O'r disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn y pedair blynedd rhwng 1996 a 1999, dim ond 78% a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 rhwng 1999 a 2002. Mae gormod o amrywiaeth yn y gyfradd gadw hon rhwng AALLau.

#### **3.1 Eithrio o addysg cyfrwng Cymraeg/iaith gyntaf wrth bontio i addysg uwchradd**

Ceir amrywiadau sylweddol yn yr ardaloedd sy'n siarad Cymraeg yn draddodiadol o ran niferoedd y disgyblion sy'n parhau ar y llwybr Cymraeg iaith gyntaf ar adeg pontio i addysg uwchradd. Mae'r gyfradd gadw yn amrywio o 84% yng Ngwynedd i 32% yn Sir Gaerfyrddin. Mewn rhai ardaloedd, mae cyfran fawr o ddisgyblion yn newid i ddysgu Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 3. Mae nifer o resymau am hyn ac maent yn cynnwys y canlynol.

- Gall disgyblion ddewis astudio Cymraeg fel ail iaith er mwyn osgoi dewis llwybr a fyddai'n golygu bod yn rhaid iddynt ddysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai achosion, y rheswm am hyn yw bod rhai ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn addysgu mathemateg a gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg ym Mlynnyddoedd 5 a 6 ac mae'r disgyblion yn dewis peidio â throsglwyddo nôl i ffrwd cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 7.
- Gall fod disgyblion yn dewis ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg am ei bod yn agosach i gartref.
- Gall fod rhieni nad ydynt yn medru'r Gymraeg yn poeni na fydd eu plentyn yn gallu ymdopi ag addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd, yn enwedig os ydynt o allu is.
- Gall fod rhieni'n credu bod eu plentyn wedi cyflawni eu potensial o ran dwyieithrwydd erbyn yr adeg iddynt adael addysg gynradd.
- Efallai bod staff ysgolion uwchradd am ddiogelu'r ganran uchel o raddau A\*/A a gafwyd mewn Cymraeg fel ail iaith mewn TGAU pan gaiff y canlyniadau eu hybu trwy gynnwys ymgeiswyr a astudiodd Cymraeg fel iaith gyntaf yn y gorffennol.

Mae'r mater olaf hwn yn destun pryder mawr. Pan fydd disgyblion a ddilynodd llwybr iaith gyntaf yn y gorffennol yn trosglwyddo i lwybr ail iaith, mae hyn yn cael effaith andwyol ar ruglder y disgyblion yn y Gymraeg. Mae'n wastraffus o ran yr adnoddau a roddwyd i'r ddarpariaeth Gymraeg yn y gorffennol ac mae'n rhwystr rhag gwneud cynnydd. Mae rhai AALLau wedi bod yn fwy llwyddiannus nag eraill wrth fynd i'r afael

â'r mater hwn. Er enghraifft, ar Ynys Môn, cafwyd cynnydd sylweddol yng nghyfrau y disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r awdurdod wedi cyflawni hyn trwy adnabod yr ysgolion lle'r oedd diffyg dilyniant. Yna, gweithiodd staff gyda'r ysgolion hynny i osod targedau meintiol er mwyn gwella.

### **3.2 Parhad yn y Gymraeg fel ail iaith**

Ym mhob un o'r pedwar cyfnod allweddol, mae pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel ail iaith os nad ydynt yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Er bod y Gymraeg yn orfodol yng nghyfnod allweddol 4, mae nifer y disgyblion sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer cyrsiau TGAU yn y Gymraeg yn gymharol isel. Ni chaiff ryw draean o'r disgyblion eu cyflwyno o gwbl.

Ym mwyafrif yr ysgolion, caiff y cwrs byr mewn Cymraeg fel ail iaith ei ddarparu am ryw awr yr wythnos yn unig. Nid yw hyn yn rhoi digon o amser i ymestyn ac atgyfnerthu caffael iaith newydd o un wythnos i'r llall. Ni chaiff y gwaith ei osod ar y lefel iawn bob amser nac yn cael ei gynllunio i ystyried anghenion yr holl ddisgyblion mewn dosbarthiadau gallu cymysg.

Weithiau, nid yw'r athrawon sy'n addysgu'r dosbarthiadau hyn yn athrawon iaith hyfforddedig. Mae llawer o ysgolion yn cael anawsterau wrth staffio'r dosbarthiadau hyn ac mae prinder athrawon arbenigol yn rhwystr mawr wrth wella safonau. Yn aml, caiff ysgolion eu gorfodi i ddefnyddio athrawon pynciau eraill i addysgu Cymraeg fel ail iaith, oherwydd eu bod yn siarad Cymraeg. Yn aml, mae gan yr athrawon hyn ddiffyg arbenigedd mewn technegau addysgu iaith, ac weithiau mae ganddynt ddiffyg gwybodaeth ddigonol o'r iaith ei hun. Er bod rhai ohonynt weithiau'n dod yn athrawon iaith da, yn yr amgylchiadau hyn, nid yw'n syndod bod llawer o ddisgyblion yn mynd yn isel eu cymhelliant.

### **3.3 Parhad mewn ardaloedd naturiol Gymraeg eu hiaith**

Dengys ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru fod rhai AALLau mewn ardaloedd naturiol Gymraeg eu hiaith (Gwynedd, Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn a Cheredigion, ac i raddau llai, Conwy) yn cyflwyno cyfran gymharol uchel o ddisgyblion ar gyfer asesiad yn y Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae'r gyfran yn amrywio o 97.6% yng Ngwynedd i 32% yn unig yn Sir Gaerfyrddin. Mae gan AALLau mewn ardaloedd nad ydynt yn siarad Cymraeg yn naturiol gyfrannau sy'n is na 20%

Yn y sector uwchradd, mae canran cyfradd gadw disgyblion Cymraeg iaith gyntaf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn amrywio gormod rhwng AALLau mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Mae hyn yn amrywio o 83.5% yng Ngwynedd i 50.2% yng Nghonwy. Dibynna'r amrywiadau hyn i raddau helaeth ar bolisiâu'r AALLau o ran natur ieithyddol eu hysgolion, ond maent hefyd yn digwydd oherwydd polisiâu'r ysgolion eu hunain. Lle mae llawer neu'r rhan fwyaf o ysgolion yr AALI wedi'u dynodi'n ysgolion cyfrwng Cymraeg, fel yng Ngwynedd ac Ynys Môn, mae'r gyfradd gadw yn gymharol uchel. Fodd bynnag, mae gan y tri AALI arall ychydig yn unig o ysgolion cyfrwng Cymraeg llwyr ond mae ganddynt nifer fawr o ysgolion dwyieithog lle ceir un neu ddau ddosbarth cyfrwng Cymraeg yn unig ym mhob grŵp blwyddyn.

Yn yr ysgolion hyn, ceir tuedd i asesu rhai ymgeiswyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 mewn Cymraeg fel ail iaith yn hytrach na Chymraeg fel iaith gyntaf, er eu bod nhw wedi cael llawer o'u haddysg gynradd yn Gymraeg ac maent yn siaradwyr Cymraeg rhugl, am ei bod hi'n haws iddynt gael marciau pasio uchel mewn profion ail iaith.

Nid yw rhai ysgolion uwchradd dwyieithog yn annog siaradwyr Cymraeg i barhau â'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 gan eu bod yn meddwl y byddant yn cael gradd uwch yn y Gymraeg fel ail iaith. Mae hyn yn ddealladwy am ei fod yn gwella portffolio disgyblion unigol o lwyddiannau TGAU yn ogystal â pherfformiad TGAU cyffredinol yr ysgol, ond mae hyn yn creu anfantais i ddisgyblion, nad ydynt yn cael eu herio i wella.

### **3.4 Parhad mewn ardaloedd nad ydynt yn naturiol Gymraeg eu hiaith**

Yn ôl y disgwyl, mewn AALLau nad ydynt yn ardaloedd naturiol Gymraeg eu hiaith, lle mae addysg yn y Gymraeg ar gael dim ond mewn ysgolion sydd wedi'u dynodi'n ysgolion cyfrwng Cymraeg, dim ond canran gyffredinol gymharol isel o ddisgyblion a asesir mewn Cymraeg fel iaith gyntaf yn y sector cynradd. Fodd bynnag, mae'r AALLau hyn yn cynnal cyfradd gadw uchel yng nghyfnod allweddol 3. Y rheswm am hyn yw bod disgyblion a addysgir mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (y mae llawer ohonynt yn dod o gartrefi di-Gymraeg), fel rheol yn aros yn y sector cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu haddysg uwchradd. Mae'r dewis eisoes wedi'i wneud, wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol gynradd.

Yna, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig yn cyflwyno bron eu holl ddisgyblion ar gyfer arholiadau TGAU mewn Cymraeg fel iaith gyntaf, a dim ond cyfran fach iawn o'r disgyblion hyn sy'n cymryd Cymraeg fel ail iaith.

## **4. Blynyddoedd Cynnar**

### **Canfyddiadau**

Mae tystiolaeth o arolygiadau'r sector a gynhelir yn dangos bod plant ifanc yn gwneud cynnydd da o ran datblygiad eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog dynodedig, mae disgyblion o dair i bump oed yn aml yn cael sylfaen dda ar gyfer datblygu eu rhuglder yn y Gymraeg. Dyma'r achos hyd yn oed pan ddônt o gartrefi lle siaredir y Saesneg yn unig. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae llawer o blant ifanc hefyd yn cael rhywfaint o brofiad cynnar o'r Gymraeg sy'n eu cyflwyno i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd.

Mae plant ifanc yn cael cefnogaeth gymedrol wrth ddysgu Cymraeg mewn lleoliadau gwirfoddol, preifat ac annibynnol yn y sector na chynhelir. Mae rhyw 20% o blant ifanc yn mynd i grwpiau chwarae cyfrwng Cymraeg yn y sector na chynhelir. Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn effeithiol wrth helpu plant ifanc i sefydlu sylfeini da yn y Gymraeg. Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn darparu addysg drochi a chefnogaeth yn yr iaith Gymraeg i blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith. Yn ogystal, gweithia'r Mudiad yn effeithiol gyda phlant ifanc sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol sy'n dod yn bennaf o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig mewn canolfannau trefol fel Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd.

Fodd bynnag, nid oes union ffigurau ar gael sy'n rhoi cyfansymiau'r plant ifanc sy'n cael rhywfaint o brofiad cynnar wrth ddysgu'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg na chynhelir.

### **Nodweddion da**

Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn darparu seiliau cadarn yn y Gymraeg ar gyfer plant ifanc nad ydynt yn siarad y Gymraeg gartref. Trwy gyflwyno'r iaith Gymraeg yn gynnar i blant ifanc, mae rhieni'n gallu dewis a ydynt am anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Saesneg neu gyfrwng Cymraeg.

Mae rhai plant ifanc yn dysgu'r Gymraeg ac yn dechrau cael dealltwriaeth o hynodrwydd Cymru, ei hieithoedd a'i diwylliant. Maent yn barod i ddysgu'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1 ac yn elwa'n fawr ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yn eu gweithgareddau pob dydd fel chwarae rôl a datrys problemau.

Mae 'Canlyniadau Dymunol' ACCAC a llunio canllawiau gan rai AALLau ar y chwe maes dysgu wedi cynorthwyo athrawon i feithrin medrau iaith disgyblion a gall hyn gynnwys eu medrau dwyieithog. Mae rhai Partneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant mewn AALLau wedi gwella'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ifanc.

Ar hyn o bryd, mae ACCAC yn paratoi 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant' a fydd yn rhoi arweiniad i staff ar sut i ddatblygu'r saith maes dysgu newydd o fewn y Sector Sylfaen, sy'n cynnwys dwyieithrwydd.

### **Prif feysydd pryder**

- Nid oes digon o wybodaeth ynghylch faint o blant ifanc sy'n dysgu'r Gymraeg yn y sector na chynhelir.
- Yn gyffredinol, nid oes digon o arweiniad manwl ar gael ar gyfer arweinwyr grwpiau chwarae a meithrinfeydd ynghylch adeiladu cwricwlwm mewn lleoliad dwyieithog neu ynghylch sut i ddatblygu hyfedredd plant mewn ail neu drydedd iaith.
- Gyda chyflwyno'r Sector Sylfaen yng Nghymru o fis Medi 2004 ymlaen, ceir cynnydd yn y galw am hyfforddiant staff.

## 5. Ysgolion Cynradd

### 5.1 Cymraeg fel iaith gyntaf

#### Canfyddiadau

Mae tystiolaeth arolygiadau (2002-2003) yn dangos bod safonau mewn Cymraeg fel iaith gyntaf yn dda neu'n dda iawn mewn 52% o'r dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 1 ac mewn 42% o'r dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2. Mewn 3% o'r dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 1, mae'r safonau yn anfoddhaol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae 5% o'r dosbarthiadau yn anfoddhaol.

Mae asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn adlewyrchu'r safonau da hyn.

Cyfnod allweddol 1	2001	2002	2003
Cymraeg Lefel 2 neu uwch	86%	87%	87%

Yng nghyfnod allweddol 1, mae canlyniadau asesiadau'r athrawon mewn Cymraeg fwy neu lai yr un fath â'r llynedd. Cyrhaeddodd 87% o ddisgyblion lefel 2 (y lefel sy'n ddisgwyliedig ohonynt). Golyga hyn bod mwyafrif y disgyblion ifanc yn cyflawni'n dda ym medrau darllen, ysgrifennu a gwaith rhif ac yn adlewyrchu'r gwaith da gan athrawon mewn dosbarthiadau cyfnod allweddol 1 ar hyd a lled Cymru.

Caiff canrannau'r plant 11 oed sy'n cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn canlyniadau tasgau a phrofion y Cwricwlwm Cenedlaethol eu dangos isod.

Cyfnod allweddol 2	2001	2002	2003
Cymraeg Lefel 4 neu uwch	71%	75%	78%

Mae cyrhaeddiad cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg yn gwella. Mae'r cyflawniad hwn yn golygu bod ysgolion mewn sefyllfa dda i fodloni'r targed o 80-85 y cant yn cyrraedd lefel 4 a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 2004.

Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae merched yn perfformio'n llawer gwell na bechgyn mewn Cymraeg. Yng nghyfnod allweddol 1, y bwlch eleni oedd with pwynt canran ac yng nghyfnod allweddol 2 roedd yn 11 pwynt canran. Mae'r targed, a osodwyd ym 1996 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i haneru'r gwahaniaethau yng nghyfnod allweddol 2, heb ei fodloni. Mae angen i ysgolion archwilio ffyrdd o ysgogi bechgyn i gyflawni'n well mewn iaith.

## **Nodweddion da**

Mae ymweliadau rheolaidd â chanolbwynt gan athrawon bro o gymorth i gyfoethogi medrau llafar, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion. Yn yr arfer orau, yn ystod yr ymweliadau hyn, mae'r disgyblion yn trafod syniadau ar lafar gyda'r athro ac yn casglu disgrifiadau perthnasol, ymadroddion idiomatig a geirfa er mwyn gwneud defnydd creadigol o iaith.

Mae ysgolion lle mae safonau ysgrifennu'n dda yn aml yn gwneud cysylltiadau cryf rhwng yr amrywiol foddau iaith, sef llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Er enghraifft, pan fydd disgyblion yn cael cyfleoedd i lunio brawddegau ar lafar cyn eu hysgrifennu, yn aml ceir effaith fuddiol ar ansawdd a chywirdeb eu gwaith ysgrifenedig. Mae'r strategaethau hyn, sy'n gysylltiedig â defnyddio fframiau ysgrifennu a rhestr gyfeirio o batrymau defnyddiol, geirfa ac ymadroddion idiomatig, wedi arwain at well safonau mewn ysgrifennu mewn llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Yn aml, mae gan ysgolion, lle mae'r safonau mewn darllen yn dda, gyflenwad diweddar o lyfrau Cymraeg (ffuglen a ffeithiol) sy'n darparu ar gyfer anghenion amrywiaeth eang o ddiddordebau. Rhoddir sylw i ddiddordebau bechgyn yn yr ysgol, gan gydnabod angen penodol i ymrwymo bechgyn mewn darllen. Mae rhai ysgolion yn mabwysiadu strategaethau i archwilio ac ecsbloetio llyfrau'n ehangach, er enghraifft fel sail ar gyfer datblygiad llafar a gwaith drama, ar gyfer gwaith mewn addysg bersonol a chymdeithasol ac fel ffynhonnell cyfoethogiad personol. Maent yn aml yn defnyddio cymuned ehangach yr ysgol i wneud darllen yn ddifyr ac i roi statws uchel iddo.

Mae rhaglenni darllen mewn parau a grwpiau yn gweithio'n dda mewn llawer o ysgolion. Mae'r strategaeth hon yn gwneud mwy o lyfrau'n hygyrch i ddarllenwyr heb fawr o ruglder ac yn hyrwyddo pleser darllen ar gyfer pawb.

## **Prif feysydd pryder**

Lle addysgir Cymraeg fel iaith gyntaf:

- nid yw safon ysgrifennu'r disgyblion yn y Gymraeg yn ddigon da yn aml;
- mae darllen personol y disgyblion yn y Gymraeg yn aml yn gyfyng;
- mae rhy ychydig o fechgyn yn cyflawni rhagoriaeth yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;
- mae gormod o ysgolion nad ydynt yn cynnig cwricwlwm sy'n gytbwys yn ieithyddol yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau parhad a dilyniant ym medrau ieithyddol eu disgyblion. Mae hyn yn benodol wir ym mhynciau craidd mathemateg a gwyddoniaeth; a
- nid oes digon o ddisgyblion sy'n medru'r Gymraeg mewn AALLau fel Sir Gaerfyrddin, Conwy a Cheredigion yn astudio pynciau craidd trwy gyfrwng y Gymraeg o 7 mlwydd oed ymlaen.

## 5.2 Cymraeg fel ail iaith

### Canfyddiadau

Mae tystiolaeth arolygiadau yn nodi bod Cymraeg fel ail iaith yn un o'r pynciau lle mae safonau fel arfer ar eu hisaf mewn ysgolion cynradd. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r safonau'n dda neu'n dda iawn mewn 38% o ddsbarthiadau ac yn anfoddfaol mewn rhyw 2%. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r safonau'n dda neu'n dda iawn mewn 43% o ddsbarthiadau ac yn anfoddfaol mewn 2%. Mae'r safonau hyn yn cynrychioli gwelliant sylweddol ar safonau'r blynyddoedd blaenol.

### Nodweddion da

Mae'r ysgolion a'r lleoliadau (gan gynnwys canolfannau iaith) lle mae'r safonau'n dda yn aml yn gosod amcan clir i'w hunain, sef y bydd disgyblion yn dod yn rhugl yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Er mwyn cyflawni hyn, maent yn nodi o flwyddyn i flwyddyn y patrymau iaith, y swyddogaethau a'r eirfa y bydd angen i ddisgyblion eu dysgu. Maent yn addysgu'r rhain yn drylwyr ac yn gyson ac yn adeiladu ar wybodaeth a medrau'r disgyblion o ddsbarth i ddsbarth wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol.

Mae'r canolfannau iaith ar gyfer plant nad ydynt yn siarad Cymraeg ac sy'n newydd i ardaloedd sy'n siarad Cymraeg ac i addysg cyfrwng Cymraeg yn aml yn gweithio'n effeithiol. Mae'r canolfannau hyn yn cynnig cwrs iaith dwys dros un neu ddau dymor (amser llawn neu ran-amser) i'r disgyblion hyn. Gan fod llawer o'r gwaith yn waith trawsgwricwlaidd, mae'r disgyblion yn dysgu defnyddio'u hiaith newydd mewn ystod o gyd-destunau a sefyllfaoedd o'r dechrau. Mae hyn yn eu paratoi'n dda i ymuno â ddsbarthiadau dwyieithog/cyfrwng Cymraeg pan fyddant yn dychwelyd i'w hysgolion cynradd.

### Prif feysydd pryder

- Nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn Cymraeg fel ail iaith ac maent yn aml yn methu sgwrsio yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2.
- Nid yw'n ddigon clir i ysgolion mewn rhai AALLau pa batrymau iaith, swyddogaethau, termau a geirfa y mae angen eu haddysgu i bob grŵp blwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 i adeiladu'n raddol ar eu medrau.
- Mewn llawer o ysgolion, er gwaetha'r gwaith da a wneir wrth ddarparu hyfforddiant ar gyfer athrawon a'u hymroddiad i gyflwyno rhaglen orfodol Cymraeg fel ail iaith, nid yw'r disgyblion yn gallu defnyddio'r Gymraeg ym mhynciau eraill y cwricwlwm. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- Mae addysgu Cymraeg fel ail iaith, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn parhau'n her fawr i athrawon ysgolion cynradd nad ydynt yn wastad yn siaradwyr Cymraeg rhugl eu hunain o bosibl.

## 5.3 Addysg cyfrwng Cymraeg

### Canfyddiadau

O ganlyniad i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi agor dros y blynyddoedd diweddar yng Nghaerdydd, Abertawe, Powys, Sir Fynwy a Bro Morgannwg. Fodd bynnag, mewn rhai AALLau eraill, nid yw'r ddarpariaeth wedi bodloni'r galw eto.

Yn yr ysgolion sy'n treialu'r cynllun Addysg Drochi, mae rhieni wedi croesawu'r cyfle i'w plant ddatblygu medrau dwyieithog mewn cyfnod byr cyn ac ar ôl trosglwyddo i ysgolion uwchradd fel y gallant drosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg.

Ar hyd a lled Cymru, mae ychydig o dan dair rhan o bump o ddisgyblion a asesir mewn Cymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 2 yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn mathemateg a gwyddoniaeth. O'r rheiny sy'n mynd ymlaen i gael eu hasesu yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3, mae ychydig dros hanner yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

### Nodweddion da

Mae gweithredu Cynlluniau Addysg Gymraeg ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg wedi arwain at bolisiâu wedi'u diffinio'n gliriach ar gyfer AALLau ac ysgolion mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg.

### Prif feysydd pryder

- Ni wnaed digon o gynllunio ymlaen llaw i ystyried y niferoedd cynyddol o ddisgyblion sy'n dymuno dewis addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai AALLau.
- Mae rhy ychydig o ysgolion yn cynnig asesiadau athrawon cyfrwng Cymraeg mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

## 6. Ysgolion uwchradd

### 6.1 Cymraeg fel iaith gyntaf

#### Canfyddiadau

#### Canlyniadau asesu

##### *Asesiadau cyfnod allweddol 3*

Cyfnod allweddol 3	2001	2002	2003
Cymraeg Lefel 5 neu uwch	71%	71%	73.5%

Ym mhroffion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3, roedd canran y disgyblion yn cyflawni lefel 5 neu'n well yn 71% yn 2001 gan barhau felly yn 2002. Cododd i 73.5% yn 2003. Mae hon yn ganran dipyn yn uwch na mewn Saesneg, a syrthiodd o 62% i 61% yn yr un cyfnod cyn codi i 63.1% yn 2003. Mae canran y bechgyn sy'n cyflawni'r lefel hon yn parhau i fod ymhell y tu ôl i'r merched, gyda 66% o gymharu ag 81%. Ceir bwch tebyg mewn Saesneg.

#### *Asesiadau cyfnod allweddol 4*

Cyfnod allweddol 4	2001	2002	2003
Carfan a gyflwynwyd	11.7%	12.1%	12.8%
A*-C Cymraeg TGAU	72%	75%	74.5%

Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y garfan a gyflwynwyd ar gyfer TGAU mewn Cymraeg wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf, er yn araf, o 11.7% yn 2001 i 12.1% yn 2002 a 12.8% yn 2003. Mae canran yr ymgeiswyr a gafodd raddau A\*-C yn uchel. Cododd i 75% yn 2002, o gymharu â 72% yn 2001, ond syrthiodd ychydig iawn i 74.5% yn 2003. Mae hyn bron 20 pwynt canran yn uwch na mewn Saesneg, lle cododd y ganran un pwynt yn unig. Perfformiodd merched llawer yn well na'r bechgyn.

#### *Asesiadau ôl-16*

Canran yr ymgeiswyr yn cyflawni graddau A a B mewn Cymraeg safon uwch

Safon uwch	2001	2002	2003
Cymraeg	47%	53%	51%

Cododd nifer yr ymgeiswyr safon uwch ar gyfer yr iaith Gymraeg rhwng 2001 a 2003 gan ryw chew phwynt canran. Dros yr un cyfnod, cododd nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Saesneg gan ryw 10 pwynt canran.

Cafwyd cynnydd o 17 pwynt canran rhwng 2001 a 2003 yn nifer y myfyrwyr yn cael eu cyflwyno ar gyfer safon UG. Er bod y cynnydd yn un sylweddol, nid oedd mor uchel ag yn Saesneg (41%).

Cododd canran yr ymgeiswyr yn cael graddau A-B yn sylweddol yn 2002 o gymharu â 2001, yna syrthiodd ychydig yn 2003. At ei gilydd, mae'r duedd yn mynd am i fyny'n araf, o 47% yn 2001 i 51% yn 2003. O gymharu, cododd y sgôr yn Saesneg yn yr un cyfnod o 43% i 53%. Cafodd bron pob ymgeisydd o leiaf gradd E yn y Gymraeg.

### **Canfyddiadau arolygiadau**

Safonau da neu dda iawn	2002	2003
Cyfnod allweddol 3	76%	85%
Cyfnod allweddol 4	71%	86%

Yn ogystal, awgryma tystiolaeth arolygiadau fod safonau'n gwella. Yn yr ysgolion a arolygwyd yn 2002, yng nghyfnod allweddol 3, roedd canran y gwersi gyda safonau da neu dda iawn yn 76%, a oedd yn uwch na holl bynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn 2003, cododd y ffigur hwn i 85%.

Yng nghyfnod allweddol 4, roedd canran y gwersi gyda safonau da neu dda iawn yn uchel ar 71% yn 2002, ond nid oedd hyn mor uchel â rhai pynciau eraill ar draws pob ysgol. Yn 2003, cododd y ffigur i 86%. Yn y ddau gyfnod allweddol yn 2003, roedd y canrannau hyn, o gryn bellter, yn uwch na phynciau eraill.

Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn deall ac yn cyfathrebu'n dda yn yr iaith lafar ac yn ysgrifenedig. Lle ceir gwendidau, mae'r rhain fel arfer yn sgil ystod gyfyng mynegiant neu ddiffyg hyder wrth siarad yr iaith, a defnydd anghywir o'r iaith ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad ac yn ysgrifennu'r iaith yn dda.

Yn safon uwch, mae'r safonau'n gyffredinol dda, ac yn aml yn dda iawn.

Ar bob lefel, dylid cymryd gofal wrth gymharu perfformiad profion ac arholiadau mewn Cymraeg fel iaith gyntaf â pherfformiad mewn Saesneg a phynciau eraill, gan fod y ffigurau ar gyfer Cymraeg wedi dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion dwyieithog yn unig, ac mae'r rhai ar gyfer pynciau eraill wedi deillio o bob ysgol.

### **Nodweddion da**

Mae'r tueddiadau'n dangos bod nifer y disgyblion sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer TGAU a safon uwch yn y Gymraeg wedi codi dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae tystiolaeth arolygiadau yn awgrymu bod safonau'n gwella.

## Prif feysydd pryder

- Mae gormod o ddisgyblion yn astudio Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion uwchradd pan allant barhau â Chymraeg fel iaith gyntaf.
- Yn yr un modd â phynciau eraill gyda phwyslais ar iaith, mae perfformiad bechgyn yn sylweddol wannach na rhai'r merched mewn arholiadau a phroffion cenedlaethol.

## 6.2 Cymraeg fel ail iaith

### Canlyniadau asesiadau

#### *Asesiadau cyfnod allweddol 3*

Cyfnod allweddol 3	2001	2002	2003
Cymraeg lefel 5 neu uwch	40%	42%	44%

Yng nghyfnod allweddol 3, mewn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol, cododd canran y disgyblion yn cyflawni lefel 5 neu'n well ychydig i 42% yn 2002 o 40% yn 2001. Cododd eto yn 2003 i 44%, ond, fel yn y ddwy flynedd blaenorol, dyma'r sgôr isaf yn holl bynciau sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol. Roedd perfformiad y merched yn sylweddol well na'r bechgyn, gyda 54% o ferched, o gymharu â 35% o fechgyn, yn cael o leiaf lefel 5.

#### *Asesiadau cyfnod allweddol 4*

#### Canran y disgyblion yn cyflawni A\*-C

Cyfnod allweddol 4	2001	2002	2003
A*-C Cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith	63%	64%	62%

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2003, cyflwynwyd hanner yr holl ddisgyblion ym mlwyddyn 11 ar gyfer TGAU mewn Cymraeg fel ail iaith. Gan ganiatáu ar gyfer y ffaith fod rhyw 12% o'r holl ddisgyblion wedi'u cyflwyno mewn Cymraeg iaith gyntaf, golyga hyn na safodd dros draean o'r grŵp blwyddyn TGAU mewn Cymraeg fel ail iaith, er ei fod yn bwnc gorfodol yng nghyfnod allweddol 4 (oni bai bod disgyblion yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf). Nid yw hyn yn cymharu'n dda â'r Saesneg, lle safodd 90% o ddisgyblion eu harholiadau TGAU. Fel yn y ddwy flynedd blaenorol, roedd tua dwy ran o bump o'r cyflwyniadau TGAU mewn Cymraeg fel ail iaith ar gyfer y cwrs byr.

Yn arholiadau'r cwrs llawn, roedd y ganran yn cael graddau A\*-C ychydig dros 60% rhwng 2001 a 2003. Perfformiodd y merched yn llawer gwell na'r bechgyn. Yn y cwrs TGAU byr, dim ond traean o'r ymgeiswyr gafodd A\*-C yn y tair blynedd diwethaf. Digwyddodd hyn, o leiaf yn rhannol mae'n debyg, oherwydd yr amser cyfyng a glustnodwyd ar gyfer addysgu.

## Asesiadau ôl-16

Safon uwch ac UG	2001	2002	2003
Graddau A-B mewn Cymraeg ail iaith	47%	43%	45%

Cododd nifer y cyflwyniadau safon uwch ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yn 2002 ond syrthiodd yn ôl ychydig yn 2003. At ei gilydd, cododd nifer y cyflwyniadau rhwng 2001 a 2003 gan ryw bump pwynt canran. Pedwar deg pum y cant oedd canran y disgyblion yn cael graddau A-B yn 2003, ychydig o ostyngiad ers 2001. Cafodd bron yr holl ymgeiswyr o leiaf radd E.

Cafwyd cynnydd anogol a sylweddol o bron 30 pwynt canran, rhwng 2001 a 2003, yn nifer y myfyrwyr yn sefyll arholiadau safon UG.

### Canfyddiadau arolygiadau

Safonau da neu dda iawn	2002	2003
Cyfnod allweddol 3	46%	58%
Cyfnod allweddol 4	49%	51%

Yn 2002, parhaodd y dystiolaeth arolygu i ddangos bod safonau da i'w gweld yn llai aml mewn Cymraeg fel ail iaith nag unrhyw bwnc gorfodol arall yn y naill gyfnod allweddol neu'r llall. Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2002, 46% oedd canran y dosbarthiadau gyda safonau da neu dda iawn o gymharu â 76% (y ganran uchaf) ar gyfer Cymraeg fel iaith gyntaf a 58% ar gyfer ieithoedd tramor. Yng nghyfnod allweddol 4, 49% oedd y ganran o gymharu â'r ganran uchaf o 77% mewn hanes, 71% mewn Cymraeg a 64% mewn ieithoedd tramor.

Yn 2002, roedd gan y Gymraeg fel ail iaith hefyd ganran uwch o safonau anfodddhaol neu wael nag unrhyw bwnc arall yng nghyfnod allweddol 3, ac yng nghyfnod allweddol 4, dyma'r ail bwnc gwaethaf yn hyn o beth.

Fodd bynnag, yn yr ysgolion a arolygwyd yn 2003, cafwyd gwelliant sylweddol yng nghyfnod allweddol 3, lle canfuwyd safonau da mewn 58% o wersi, sef cynnydd o 12 pwynt canran o gymharu â 2002. Dylid ystyried hyn mewn cyd-destun lle mae'r graddau cyffredinol ar gyfer pob pwnc wedi parhau yr un fath â 2002. Yng nghyfnod allweddol 4, cododd y sgôr ychydig, gan ddau bwynt canran, ac roedd yn parhau i fod yn is na phob pwnc arall y Cwricwlwm Cenedlaethol ac eithrio un.

Yn gyffredinol, yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r safonau ar eu gorau ym medrau derbyngar gwrando a darllen. Er bod ynganiad a goslef yn aml yn dda, mae'r gallu i ymateb yn estynedig ar lafar neu yn ysgrifenedig yn aml yn gyfyng ac, ar y cyfan, dim ond y disgyblion mwyaf galluog all gynhyrchu iaith sy'n mynd y tu hwnt i'r testunau a'r strwythurau cyfyngedig. Mae'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn aml yn awyddus i gymryd rhan mewn gwaith llafar, ond mae'r cymhelliant hwn yn aml yn gwanhau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig ymhlith disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr ond sydd â diffyg cymhelliant.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r safonau ar eu gorau yn gyffredinol lle mae'r disgyblion wedi dewis yr arholiad TGAU llawn. Mewn llawer o ysgolion, mae'r disgyblion hyn yn aml ymhlith y rhai mwyaf galluog yn y flwyddyn. Mewn dosbarthiadau sy'n cymryd y cwrs byr (yn aml yn cynnwys yn bennaf ddisgyblion sydd ond yn cymryd y pwnc am ei fod yn orfodol), nid yw'r safonau'n dda yn aml. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae pob disgybl yn dilyn y cwrs llawn ac mae'r safonau'n amrywiol.

Yn safon uwch, mae'r safonau'n gyffredinol dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, maent yn foddhaol yn unig.

### **Nodweddion da**

Mae tystiolaeth arolygu Estyn yn dangos bod safonau wedi gwella yng nghyfnod allweddol 3.

Mewn TGAU, mae'r safonau ar eu gorau yn gyffredinol lle mae disgyblion wedi dewis y cwrs llawn mewn Cymraeg fel ail iaith. Ceir cynnydd anogol yn y niferoedd a gyflwynwyd ar gyfer arholiadau safon UG ac, yn safon uwch, mae'r safonau'n gyffredinol dda.

### **Prif feysydd pryder**

- Mae'r safonau mewn Cymraeg fel ail iaith yn gyffredinol isel o gymharu â mwyafrif y pynciau eraill, o ran profion cenedlaethol neu ganlyniadau arholiadau ac mewn dosbarthiadau, a arolygwyd gan Estyn. Fodd bynnag, cafwyd gwelliant anogol yng nghyfnod allweddol 3 yn yr ysgolion a arolygwyd yn 2003.
- Nid yw dros draean o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn sefyll unrhyw arholiad TGAU yn y Gymraeg.
- Mae dwy ran o bump o'r cyflwyniadau TGAU yn y Gymraeg fel ail iaith ar gyfer y cwrs byr. Dim ond traean o'r rhain sy'n cael graddau A\*-C, lle mae bron ddwywaith y ganran hon yn cael A\*-C yn y cwrs TGAU llawn.
- Mae prinder athrawon arbenigol yn cyfyngu gallu'r ysgolion i hyrwyddo safonau da.
- Mae darpariaeth yr ysgolion ar gyfer y cwrs TGAU byr yng nghyfnod allweddol 4 yn aml yn annigonol o ran y dyraniad amser ac arbenigedd yr athrawon.

## **6.3 Addysg cyfrwng Cymraeg**

### **Canfyddiadau**

### **Canlyniadau asesu**

Mae cyfran y disgyblion a addysgir ac a asesir trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn parhau i amrywio gormod rhwng AALIau mewn

ardaloedd sy'n siarad Cymraeg yn draddodiadol. Nid yw'r sefyllfa wedi newid yn sylweddol iawn yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae cyfran y disgyblion a asesir trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu'n araf.

### *Asesiadau cyfnod allweddol 3*

Nid yw'r disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3 o reidrwydd yn astudio eu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, o'r disgyblion hynny a asesir mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ym mhroffion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, dim ond hanner a asesir trwy gyfrwng y Gymraeg mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

### *Asesiadau cyfnod allweddol 4*

Mae cyfran gyffredinol y cyflwyniadau cyfrwng Cymraeg o bob cyflwyniad pwnc TGAU wedi cynyddu'n raddol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2003, roedd bron 10% o'r holl gyflwyniadau TGAU ar gyfer pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd y ganran yr un fath ar gyfer bechgyn a merched. Roedd hwn yn gynnydd bychan o 2002, ac yn gynnydd cyffredinol o bron i un pwynt canran er 2001.

Mae cyfran y cyflwyniadau ar gyfer papurau cyfrwng Cymraeg sy'n cyflawni graddau A\*-C yn sylweddol fwy na'r gyfran ar gyfer cyflwyniadau cyfrwng Saesneg ac mae hefyd wedi cynyddu dros y cyfnod.

Ymhlith y pynciau a addysgir yn fwyaf cyffredin, mae cyfran uchaf y cyflwyniadau cyfrwng Cymraeg yn digwydd mewn hanes, drama a cherddoriaeth. Mae mwy o athrawon ar gael sy'n medru'r Gymraeg yn y pynciau hyn.

Mae cyfran y cyflwyniadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau lefel mynediad fel y Dystysgrif Cyflawniad Addysgol yn codi, mewn sefyllfa lle mae'r cyflwyniadau ar gyfer y cymwysterau yn disgyn ar y cyfan. Awgryma hyn fod mwy o addysgu cyfrwng Cymraeg yn digwydd yn y pynciau dan sylw.

### *Asesiadau ôl-16*

Mae cyfran gyffredinol y cyflwyniadau pwnc cyfrwng Cymraeg yn Safon Uwch hefyd wedi cynyddu'n raddol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda bron yr holl bynciau'n dangos cynnydd. Mae cyfran uchaf y cyflwyniadau cyfrwng Cymraeg yn digwydd yn y dyniaethau, celf a cherddoriaeth, tra bo'r cyfrannau mewn gwyddoniaeth ac economeg yn isel. Mae tua un o bob pump o'r holl gyflwyniadau safon uwch/UG mewn cerddoriaeth, a rhyw un o bob chwech neu saith o'r holl gyflwyniadau mewn hanes, addysg grefyddol a chelf, ar gyfer fersiynau cyfrwng Cymraeg papurau safon uwch ac UG.

At ei gilydd, mae cyfran uwch o gyflwyniadau cyfrwng Cymraeg yn cael graddau A a B nag ymgeiswyr ar y cyfan, ond mae hyn yn amrywio ar gyfer pynciau unigol. Mae'r sefyllfa'n debyg ar gyfer y gyfran sy'n cael graddau A i E.

## Canfyddiadau arolygiadau

Mae adroddiadau arolygiadau yn nodi mai ychydig ysgolion sy'n llwyddo cynyddu nifer y disgyblion a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn y rhan fwyaf o'r pynciau. Mewn rhai ysgolion, ceir enghreifftiau da o addysgu a dysgu dwyieithog, lle mae'r disgyblion yn barod i newid o un iaith i'r llall yn ystod gwrs.

### Nodweddion da

Mae cyfran y cyflwyniadau pwnc cyfrwng Cymraeg mewn TGAU a safon uwch wedi cynyddu'n raddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mewn arholiadau TGAU a safon uwch, mae'r canlyniadau ar gyfer arholiadau cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol well nag ar gyfer cyflwyniadau cyfrwng Saesneg.

### Prif feysydd pryder

- Mae rhai ysgolion dwyieithog yn addysgu disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl mewn rhai pynciau trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.
- Mae canran y myfyrwyr sy'n cymryd profion y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn mathemateg a gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn isel yng nghyfnod allweddol 3 o gymharu â'r ganran sy'n cymryd Cymraeg fel iaith gyntaf. Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y cyflwyniadau TGAU cyfrwng Cymraeg mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn gymharol isel o gymharu â Chymraeg fel iaith gyntaf, hanes, drama, celf a cherddoriaeth.

## 6.4 Ysgolion Arbennig

### Canfyddiadau

Mae'r safonau mewn Cymraeg yn dda mewn 10 ac yn foddhaol mewn 3 o'r ysgolion a arolygwyd yn y ddwy flynedd diwethaf. Maent yn anfoddhaol mewn un ysgol. Mewn rhai ysgolion, nid yw'r disgyblion yn dysgu'r Gymraeg o gwbl, er eu bod fel rheol yn astudio agweddau ar y Cwricwlwm Cymreig.

### Nodweddion da

Gwneir defnydd da o Gymraeg achlysurol mewn nifer o ysgolion ond nid ymhob un ohonynt. Defnyddia'r athrawon y Gymraeg yn dda yn aml yn y gwasanaeth ac mae'r disgyblion yn aml yn canu caneuon Cymraeg.

Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn dangos diddordeb a brwdfrydedd. Maent yn gwneud cynnydd da fel rheol.

Pan addysgir y Gymraeg, ceir canolbwynt priodol ar fedrau gwrando a siarad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar, ac yn deall, cyfarwyddiadau ac yn gallu ymateb i gwestiynau syml ar destunau adnabyddus. Maent yn gwneud ymdrech dda i ddefnyddio'r iaith. Mae llawer yn gallu cyfarch ei gilydd yn y Gymraeg.

Ar y cyfan, mae'r disgyblion yn ymwybodol o ddiwylliant Cymru. Maent yn aml yn ymweld â lleoedd o ddiddordeb diwylliannol. Cynhelir Eisteddfod flynyddol mewn rhai ysgolion. Mae arwyddion dwyieithog yn aml yn helpu disgyblion i adnabod Cymraeg ysgrifenedig fel iaith wahanol. Gall rhai disgyblion ddarllen testunau syml.

### **Prif faes pryder**

- Mae un ysgol arbennig nad yw yn addysgu'r Gymraeg ac nad yw'n bodloni gofynion statudol, er nid yw'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso rhag cymryd Cymraeg. Mewn dwy ysgol mae'r disgyblion wedi'u datgymhwyso rhag cymryd Cymraeg.

## **7 Addysg Bellach**

### **Canfyddiadau**

Mae nifer y myfyrwyr a asesir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn parhau i fod o dan 2%, er y cafwyd tuedd am i fyny yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gwelwyd y prif dwf mewn colegau yn yr ardaloedd sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, yn enwedig Coleg Meirion Dwyfor, Coleg Menai a Choleg Llysfasi. Fodd bynnag, mae patrwm y twf yn anghyson hyd yn oed yn yr ardaloedd hyn. Yng Ngholeg Sir Gâr, mae nifer yr asesiadau Cymraeg neu ddwyieithog wedi disgyn, gyda thargedau'r ddarpariaeth heb eu bodloni. Mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, mae cynnydd yn gyfyng ar y cyfan, gydag ychydig gyfleoedd i fyfyrwyr ddilyn cyrsiau'n ddwyieithog neu gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae llawer o golegau wedi bod yn weithgar wrth baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg a chynlluniau gweithredu. Mae'r rhain yn cynorthwyo wrth godi proffil y Gymraeg a dwyieithrwydd. Erbyn hyn, mae arwyddion a dogfennau dwyieithog yn nodweddion cyffredin. Yn gyffredinol, mae colegau hefyd yn cydnabod yr angen i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog ond, ar y cyfan, mae'r cynnydd yn araf.

### **Nodweddion da**

Ceir llawer o arfer dda mewn addysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog sy'n deilwng o ledaeniad ehangach, er enghraifft, yng Ngholeg Meirion Dwyfor, lle manteisir ar fedrau llythrennedd deul myfyrwyr i hyrwyddo'u dysgu.

Mae rhai colegau wedi paratoi deunyddiau Cymraeg defnyddiol sy'n chwarae rhan allweddol mewn addysgu a dysgu. Maent yn helpu gwneud yn iawn am y diffyg deunyddiau Cymraeg mewn rhai meysydd gwaith. Mae deunyddiau amlgyfrwng sydd ar gael trwy'r rhyngwrwd o'r Coleg Digidol, ac a ariannwyd gan ELWa, hefyd yn ddylanwadol. Mae uned ddwyieithrwydd ELWa yn ariannu datblygu deunyddiau mewn meysydd galwedigaethol fel gofal ac iechyd a thwristiaeth a hamdden lle mae'r anghenion dwyieithrwydd ar eu mwyafrif niferus. Yn ogystal, maent wedi trefnu cynllun hyfforddiant peilot i helpu athrawon sy'n medru'r Gymraeg i ennill hyder i addysgu'n ddwyieithog.

Mae'r gefnogaeth y mae'r colegau'n ei rhoi i staff ddysgu'r Gymraeg neu goethi eu medrau iaith yn y Gymraeg a hefyd i ddatblygu dulliau addysgu dwyieithog yn cyfrannu at wella eu gallu i ehangu ar eu darpariaeth ddwyieithog. Dyma'r achos yn benodol mewn sefydliadau lle ceir diffyg staff sy'n siarad Cymraeg.

### Prif feysydd pryder

- Mae rhy ychydig o fyfyrwyr o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn dewis cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn addysg bellach, yn enwedig yng ngogledd-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru.
- Ni wneir digon i farchnata cyrsiau iaith Gymraeg neu ddwyieithog colegau ar draws y sectorau addysg uwchradd ac addysg bellach yng Nghymru.
- Mae anawsterau wrth recriwtio athrawon a staff cymorth â chymwysterau addas yn rhwystro'r twf yn y ddarpariaeth ddwyieithog mewn rhai colegau.

## 8. Cymraeg i Oedolion

### Canfyddiadau

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar Gymraeg i Oedolion y gellir dod o hyd iddo yn [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk). At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth i oedolion ddysgu'r Gymraeg o ansawdd da ymhlith mwyafrif y darparwyr.

Yn ystod cylch arolygu 1997-2002, dyfarnwyd gradd gyffredinol 1 i bum darparwr Cymraeg i Oedolion, gradd gyffredinol 2 i ddeunaw ohonynt a gradd 3 i wyth ohonynt.

Cylch arolygu 1997-2002	Gradd 2	Gradd 3
Sefydliadau	18	8

Cyflawnodd pob darparwr radd gyffredinol foddhaol neu well ar gyfer safonau ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

	1998-1999	2000-2001
Niferoedd yn cofrestru	18,608	19,153

Cafwyd cynnydd bach yn niferoedd yr oedolion yn dysgu Cymraeg o 18,608 ym 1998-1999 i 19,153 yn 2000-2001. Mae'r ffigur ar gyfer 2000-01 yn cynrychioli gostyngiad sylweddol o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn rhannol yn sgil cyfyngiadau 'clwy'r traed a'r genau' yn 2001, pan gafodd teithio ei gyfyngu mewn rhannau o Gymru wledig. Nid yw'r gyfradd twf mor uchel â'r un a gyflawnwyd yn y blynyddoedd yn dilyn sefydlu'r consortia ym 1994.

Ceir cryn dipyn o amrywiaeth mewn tueddiadau ymrestru rhwng darparwyr unigol o 1998-1999 i 2000-2001. Mewn rhyw draean o ddarparwyr mae'r ymrestrïadau wedi cynyddu dros y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mewn 20% o'r darparwyr, mae'r ymrestrïadau wedi lleihau yn ystod y cyfnod hwn. Nid oes patrwm clir mewn tueddiadau rhwng darparwyr sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig a/neu sy'n siarad Cymraeg yn draddodiadol, ac ardaloedd trefol a/neu sy'n siarad Saesneg yn bennaf.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr amser llawn a rhan-amser (rhyw 85%) yn cwblhau eu cwrs. Mae cyfraddau cwblhau yn tueddu i fod yn well ar gyrsiau dwys a lefel uwch.

Nid yw cyfraddau cyrhaeddiad cystal. Dim ond 64% o ddysgwyr amser llawn a 40% o fyfyrwyr rhan-amser a gyrhaeddodd y cymhwyster y gwnaethont ymrestru ar ei gyfer. Fodd bynnag, mae llawer o oedolion am ddysgu'r Gymraeg heb ddymuno cyflawni cymhwyster. Mae gormod o ddysgwyr yn rhoi'r gorau i ddysgu'r Gymraeg ar ôl cwblhau cymhwyster lefel 1.

### **Nodweddion da**

Mae adroddiadau arolygu yn nodi bod:

- gan ddysgwyr yn aml lefelau uchel o gymhelliant, brwdfrydedd ac ymroddiad;
- y defnydd o'r Gymraeg ar y lefel briodol wedi'i sefydlu'n gadarn; a bod
- athrawon yn cynllunio sesiynau'n ofalus i ddarparu trefn effeithiol o weithgareddau dysgu.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r cyfleoedd i oedolion ddysgu'r Gymraeg wedi cynyddu. Yn gyffredinol, mae dosbarthiadau Cymraeg ar gael o fewn pellter rhesymol yn y rhan fwyaf o ardaloedd ac mae dewis o wahanol fathau o gyrsiau ar gael, yn aml ar wahanol adegau o'r dydd.

Mewn rhai ardaloedd, cafwyd twf sylweddol yn nifer y cyrsiau a gynhelir yn y gweithle i gyflogwyr a chyflogeion. Yn yr arfer orau, caiff cynnwys y cwrs ei deilwra i fodloni anghenion ieithyddol penodol y gweithle. Mae'r cyrsiau hyn yn fwy llwyddiannus lle ceir blaengynllunio a thrafod effeithiol â'r cyflogwr. Yn yr achosion hyn:

- mae'r cyflogwr yn gwbl ymwybodol o'r cychwyn o'i ymrwymïadau a'i gyfrifoldebau;
- mae gan y cyflogai nod glir o ran dysgu'r Gymraeg i'r safon ofynnol o fewn cyfnod dynodedig;
- mae darparwr y cwrs yn adrodd yn rheolaidd i'r cyflogwr ar gynnydd y cyflogai;
- nodir cydweithiwr i weithredu fel mentor i'r cyflogai ; ac
- mae'r mentor yn cael arweiniad ar sut i gyflawni'r rôl yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn sefydlu cysylltiadau da ag asiantaethau a chyrrff eraill, fel Cymdeithas y Dysgwyr, Mentrau Iaith a Merched y Wawr.

Cafodd trefniadau'r consortia effaith gadarnhaol ar ddatblygu'r ddarpariaeth i ddysgwyr. Ymhlith llwyddiannau'r consortia y mae cydweithredu gwell rhwng gwahanol ddarparwyr. Mae hyn wedi arwain at ystod well o gyfleoedd i oedolion ddysgu'r Gymraeg. Mae'r consortia hefyd wedi chwarae rhan bwysig wrth wella'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i athrawon. Fodd bynnag, ni chaiff y consortia eu hariannu'n uniongyrchol ac nid yw cydweithrediad yr aelodau wedi gweithio'n ddigon effeithiol i sicrhau ansawdd, lleihau dyblygu'r ddarpariaeth neu gynnig llwybrau dilyniant cydlynus i ddysgwyr.

### **Prif feysydd pryder**

- Mae'r amrywiaeth mewn patrymau ymrestru ar draws gwahanol ardaloedd o Gymru yn awgrymu y bu'r marchnata a'r cynllunio'n annigonol.
- Cafwyd cryn dipyn o dwf yn niferoedd oedolion yn dysgu'r Gymraeg ar ôl sefydlu'r consortia Cymraeg i Oedolion ym 1994. Fodd bynnag, mae'r twf hwn bellach yn nychu.
- Nid oes digon o flaengaredd yn y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Er enghraifft, mae datblygu cyfleoedd e-ddysgu yn gyfyng.
- Nid yw cyrsiau'n cael eu marchnata digon i grwpiau targedig penodol, fel cyflogwyr, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr ôl-16 sydd wedi rhoi'r gorau i ddysgu'r Gymraeg.
- Mae hyfywedd yn broblem i rai cyrsiau mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer llawer o gyrsiau ar lefelau uwch.
- Prin y ceir digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg gydag aelodau o'r gymuned leol sy'n siarad Cymraeg.
- Mae trefniadau presennol y consortia yn canolbwyntio ar ariannu darparwyr ac ychydig gymorth ariannol y mae'r consortia'n ei gael. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r consortia i yrru datblygiadau yn eu blaen. Yn ychwanegol, mae lefel y gefnogaeth ganolog ar gyfer y consortia yn gyfyng ac ni cheir strategaeth genedlaethol glir i lywio datblygiadau.
- Mae cynlluniau strategol y consortia yn cynnwys llawer o wybodaeth yn seiliedig ar ddarpariaeth darparwyr unigol ac maent yn nodi targedau meintiol mewn perthynas â chyfraddau ymrestru, cwblau a chyrhaeddiad myfyrwyr. Fodd bynnag, yn aml, maent yn methu nodi camau nesaf a strategaethau effeithiol i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad.

- Mae nifer y myfyrwyr sy'n symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch yn parhau i fod yn fach. Bu rhai darparwyr yn llwyddiannus iawn wrth wella cyfraddau dilyniant, yn enwedig mewn perthynas â myfyrwyr yn dilyn cyrsiau dwys. Mae'n bryder parhaus nad yw llawer o fyfyrwyr yn parhau i fynychu cyrsiau Cymraeg ar ôl cwblhau lefel 1.

## 9. Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid

### Canfyddiadau

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid yn dameidiog ac yn aml yn anfodddhaol. Mewn ardaloedd sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, cyflwynir y ddarpariaeth yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mewn siroedd lle ceir cyfrannau llai o siaradwyr Cymraeg, ni chyflawnir digon o waith i ddarganfod pa iaith fyddai'n well gan bobl ifanc ar gyfer eu gwasanaethau, neu i ddarparu darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog. Dyma'r achos hefyd ar gyfer cymunedau sy'n siarad Cymraeg o fewn ardaloedd sy'n siarad Saesneg yn bennaf.

Mae darparwyr y sector gwirfoddol fel yr Urdd a'r Ffermwyr Ifainc, yn darparu amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn amser hamdden adeiladol, trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ychydig awdurdodau lleol yn rhoi nawdd ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn. Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol yn adolygu'r gwasanaethau i archwilio a yw'r gweithgareddau yn ymdrin â'r hyn sydd ei angen mewn ardal. Mae Cynllun Gwobr Dug Caeredin wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at hyrwyddo'r Wobr, trwy gomisiynu prosiect ymchwil ar sut y gellir hyrwyddo'r Wobr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid, gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a darparwyr y sector gwirfoddol wedi mabwysiadu egwyddorion y Datganiad Cwricwlwm ar Waith Ieuenctid yng Nghymru, sy'n nodi y dylai gwasanaethau i bobl ifanc yng Nghymru: 'gydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i threftadaeth, ieithoedd eraill ac amrywiaeth diwylliannau yng Nghymru.' Mae llawer o ddarparwyr hefyd yn dilyn egwyddorion y ddogfen Agor Dau Ddrws<sup>1</sup>. Mae hon yn nodi canllawiau ar gyfer darparu gwaith ieuenctid dwyieithog. Er enghraifft, yng Nghastell-nedd Port Talbot, lle mae 18% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi gwneud dechrau da wrth ddarparu rhai gweithgareddau yn y Gymraeg, ond mae hyn yn gyfyng ar hyn o bryd.

Mae gweithwyr ieuenctid yn sensitif i anghenion a dewisiadau iaith pobl ifanc. Darperir gwybodaeth ysgrifenedig ddiudedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, gwneir rhy ychydig o ddefnydd o bosteri Cymraeg neu ddwyieithog, mewn arddangosfeydd ar waliau clybiau ieuenctid.

Un o'r rhesymau am y diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw'r anhawster a brofwyd gan ddarparwyr wrth recriwtio gweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, collir cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau gweithwyr ieuenctid presennol neu bobl eraill sy'n

<sup>1</sup> Lansiodd Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru a Chyngor Ieuenctid Cymru Agor Dau Ddrws – Cyflwyniad i Waith Ieuenctid Dwyieithog yn ystod 2001.

gweithio gyda phobl ifanc sy'n medru'r Gymraeg, i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc a fyddai'n well ganddynt gael mynediad i wasanaethau neu gymryd rhan mewn darpariaeth yn y Gymraeg.

### **Nodweddion da**

Mae darparwyr arbenigol gwasanaethau i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud peth gwaith da.

Mewn rhai awdurdodau, mae gweithwyr ieuencid yn sensitif i anghenion a dewisiadau iaith pobl ifanc.

Darperir gwybodaeth ysgrifenedig ddiuedd yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn rhai awdurdodau.

### **Prif feysydd pryder**

- Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y rhan fwyaf o wasanaethau cymorth ieuencid yn anfoddhaol. Ceir darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyfyng, mewn gwaith ieuencid a gwasanaethau eraill, ar draws Cymru ac mae angen datblygiad pellach ar y gwaith hwn ym mwyafrif yr awdurdodau.
- Ychydig gyfleoedd neu anogaeth a geir i bobl ifanc sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol anffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd lle nad y Gymraeg yw prif iaith y boblogaeth leol.
- Ni roddir digon o bwyslais ar iaith a diwylliant Cymru mewn gwasanaethau cymorth ieuencid ledled Cymru.

## **10. Awdurdodau Addysg Lleol**

### **Canfyddiadau**

### **Cynlluniau Addysg Gymraeg**

O dan Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae angen i Awdurdodau Addysg Lleol lunio Cynlluniau Addysg Cymraeg sy'n delio'n benodol ag addysg. Cyflwynir y rhain i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w cymeradwyo. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gofyn i AALlau fonitro gweithredu cynigion y cynllun a chyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Bwrdd bob blwyddyn.

Darparodd y rownd gyntaf o Gynlluniau Addysg Gymraeg gryn dipyn o wybodaeth ar faterion yn cynnwys cefndir ieithyddol awdurdodau lleol, twf addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gwaith gwasanaethau ymgynghorol fel yr Athrawon Bro. Fodd bynnag, ceir tipyn o amrywiaeth rhwng cynlluniau o ran manylder a'r graddau y maent yn nodi targedau heriol ar gyfer gwelliant pellach.

Ym mis Hydref 2002, darparodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg arweiniad ar fformat a chynnwys y Cynlluniau Addysg Gymraeg ar gyfer awdurdodau er mwyn gwella

ansawdd y cynlluniau. Bellach, mae angen i AALLau amlinellu cynlluniau strategol yn ymwneud â Chymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg sy'n ymestyn dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r arweiniad newydd yn nodi y dylai Cynlluniau Addysg Gymraeg:

- fapio, nodi a dadansoddi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- amlinellu strategaeth ar gyfer marchnata addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- nodi cynlluniau i ddatblygu ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg; a
- sicrhau dilyniant a pharhad rhwng cyfnodau allweddol.

Mae nifer o Awdurdodau Addysg Lleol bellach yn y broses o lunio eu hail Gynllun Addysg Gymraeg. At ei gilydd, mae ansawdd y rhain yn well na'r rhai a luniwyd yn y rownd gyntaf. Yn benodol, mae mwy o gynlluniau bellach yn nodi targedau clir a heriol mewn perthynas â materion cenedlaethol. Yn gyffredinol, ceir twf graddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i'r gwelliannau yn ansawdd cynllunio strategol Awdurdodau Addysg Lleol.

Mae rhai Cynlluniau Addysg Gymraeg, fel y rhai yn Ynys Môn a Sir Ddinbych, yn nodi cynigion uchelgeisiol i godi niferoedd y disgyblion mewn ysgolion cynradd cymunedol sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys newid natur ysgolion a'u categori ieithyddol<sup>2</sup>. Cyflawnir hyn naill ai trwy gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg neu drwy newid ysgol sy'n darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg i gyfrwng Cymraeg yn unig. Mae gan gynigion fel y rhain y potensial i gael effaith sylweddol o ran cynyddu niferoedd y bobl ifanc a ddaw yn rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, ceir amrywiaeth sylweddol yn yr ardaloedd sy'n siarad Cymraeg yn draddodiadol o ran cyfran y disgyblion a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg ac a asesir yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Nid yw'r amrywiaeth hwn bob amser yn adlewyrchu cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

---

<sup>2</sup> Mae nifer o AALLau sy'n gwasanaethu ardaloedd sy'n siarad Cymraeg yn draddodiadol yn categoreiddio eu hysgolion cynradd yn unol â natur ieithyddol eu darpariaeth. Mae'r ffordd y caiff ysgolion eu categoreiddio yn amrywio rhwng gwahanol AALLau. Gellir disgrifio'r categorïau hyn yn fras fel ysgolion lle mae'r addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ysgolion sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ill dau, ac ysgolion cyfrwng Saesneg.

## Nodweddion da

Mewn rhai AALLau, ceir disgwyliad clir y dylai disgyblion sydd wedi cyflawni Lefel 3 neu uwch mewn profion diwedd cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg fel iaith gyntaf:

- barhau ar y llwybr iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3; a
- chael addysg cyfrwng Cymraeg.

Nid oes gan AALLau ac ysgolion y pwerau statudol i sicrhau cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, gall disgwyliadau uchel gan AALLau mewn perthynas â'r mater hwn gael dylanwad cryf ar ddewis y rhieni sicrhau parhad yn nysgu'r disgyblion.

Ar Ynys Môn, mae'r awdurdod yn canolbwyntio'i ymdrechion i godi safonau dwyieithrwydd ar gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n gweithredu cynllun uchelgeisiol yn ardal Caerdybi, lle mae disgyblion yn yr ysgolion cynradd cymunedol wedi bod yn dysgu Cymraeg fel ail iaith ac wedi bod yn cael eu haddysg yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg. Mae Cymraeg bellach yn cael ei sefydlu fel y prif gyfrwng addysgu yng nghyfnod allweddol 1. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion bellach yn dilyn y rhaglen astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, gyda chyfran gynyddol yn cyrraedd lefel 4 yn y prawf diwedd cyfnod allweddol. Y cam nesaf yng nghyfnod allweddol 2 yw cyflwyno addysgu cyfrwng Cymraeg mewn modiwlau pwnc ar draws y cwricwlwm.

Mae rhai Cynlluniau Addysg Gymraeg yn nodi targedau rhifyddol heriol mewn perthynas â'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n parhau ar y llwybr Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3 ac i gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr achosion gorau, mae targedau'r awdurdod cyfan yn seiliedig ar dargedau rhifyddol unigol sydd wedi'u nodi ar gyfer pob ysgol uwchradd.

Ceir achosion o brosiectau arloesol a arweinir gan AALLau mewn perthynas ag amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru o ymestyn y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng yr addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae 'Iaith Pawb' yn nodi bod 'hon yn duedd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno'i hannog, gan y gall mwy o amlygrwydd i'r iaith yn y cyd-destunau hyn gael effaith fanteisiol ar lefelau rhuglder.'

Yng Nghonwy, mae un ysgol gynradd mewn ardal sy'n siarad Saesneg yn bennaf bellach yn addysgu 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, ceir tystiolaeth o gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. O fis Medi 2004 ymlaen, bydd yr ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg leol yn clustnodi disgyblion sydd wedi gwneud cynnydd da yn y Gymraeg i ddsbarthiadau a fydd yn cael eu haddysgu gan athrawon pwnc sy'n medru'r Gymraeg. Ar y cychwyn, bydd hyn yn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg achlysurol gan ddisgyblion ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwersi ar wahân i ddsbarthiadau iaith Gymraeg. Y cam nesaf fydd ystyried y posibilrwydd o ddatblygu dwyieithrwydd disgyblion ymhellach trwy addysgu unedau penodol o waith trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae AALI Conwy hefyd wedi bod yn gweithredu strategaeth i godi niferoedd y disgyblion sy'n parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yng nghyfnod allweddol 3 yn ardal Dyffryn Conwy. Rhan allweddol o'r strategaeth oedd gwneud rhieni'n ymwybodol o gynnydd a chyflawniadau eu plant yn y Gymraeg. O ganlyniad i'r fenter hon, cafwyd cynnydd yn niferoedd y disgyblion blwyddyn 7 yn y ffrydiau Cymraeg a dwyieithog yn Ysgol Dyffryn Conwy, o 54% yn 2002 i 73% yn 2003.

### **Prif feysydd pryder**

- Ceir gormod o amrywiaeth rhwng AALLau mewn perthynas â chyfran y disgyblion:
  - (i) a asesir yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;
  - (ii) sy'n parhau i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd;
  - (iii) a asesir trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 ac mewn TGAU a safon uwch.
- Mae rhai Cynlluniau Addysg Gymraeg yn methu nodi targedau penodol, realistig, mesuradwy, cyflawnadwy, ac amser wedi'i bennu ar eu cyfer mewn perthynas â meysydd allweddol, fel y rhai a restrir uchod.
- Ceir rhy ychydig o strategaethau sy'n codi ymwybyddiaeth rhieni o fanteision dwyieithrwydd. Prin yw nifer yr AALLau ac ysgolion sy'n cyhoeddi arweiniad i rieni. Lle ceir diffyg arweiniad, mae'r rhieni'n eithrio o addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar ddiwedd addysg gynradd. Nid yw ysgolion yn ei chael hi'n hawdd i farchnata'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan y gallai hyn gael ei ystyried fel cystadlu ag ysgolion cymdogol eraill.
- Nid yw llawer o AALLau yn rhoi digon o sylw i:
  - (i) ymestyn profiadau'r disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg; neu
  - (ii) ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd lle siaredir y Gymraeg yn y gymuned leol.
- Ni roddwyd digon o ystyriaeth i ddefnyddio dulliau gwahanol o gyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg lle ceir cyfyngiadau yn argaeledd yr athrawon a all addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y ddarpariaeth ôl-16.

## 11. Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn Sefydliadau Addysg Uwch

### Canfyddiadau

Mae pob darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cynnig ychydig hyfforddiant neu gefnogaeth i hyfforddeion sy'n dymuno addysgu yn y Gymraeg, er bod graddau'r gefnogaeth hon yn amrywio cryn dipyn.

Am resymau hanesyddol a daearyddol, mae graddau'r addysgu cyfrwng Cymraeg yn amrywio'n sylweddol rhwng yr wyth sefydliad addysg uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn partneriaeth ag ysgolion. Cynhelir y rhan fwyaf o'r hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth, Bangor neu Goleg y Drindod, Caerfyrddin.

Ceir diddordeb a chyfranogiad cynyddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai o'r sefydliadau eraill. Er enghraifft, mae rhai o'r hyfforddeion ar y cwrs celf a dylunio TAR yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe bellach yn ymgymryd â rhan o'u hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, mae nifer yr athrawon dan hyfforddiant sy'n dechrau cyrsiau yn codi. Mewn cyferbyniad, mae recriwtio i'r cwrs BA dwy flynedd mewn addysg Gymraeg uwchradd wedi bod yn is na'r targed. Gallai hyn adlewyrchu gwahaniaethau mewn ariannu hyfforddeion rhwng y cwrs hwn a'r llwybr TAR i statws athro cymwys.

Ceir prinder athrawon Cymraeg fel pwnc o hyd mewn ysgolion uwchradd, yn ogystal ag athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn gyffredinol, nid oes gan sefydliadau dargedau ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg, ond maent yn gweithio'n galed i recriwtio gymaint o hyfforddeion ag y gallant. Gallai recriwtio cyfyng i rai cyrsiau uwchradd adlewyrchu diffyg hyder darpar ymgeiswyr yn eu Cymraeg ysgrifenedig a diffyg gwybodaeth am y gefnogaeth berthnasol a ddarperir yn ystod y cwrs.

Ar gyfer cyrsiau cynradd, mae pob darparwr yn cynnig cyfle i ddysgu Cymraeg fel ail iaith, ac mae'r nifer sy'n derbyn y cynnig yn gyffredinol helaeth. Mae llawer o hyfforddeion sy'n siarad Saesneg yn dewis dysgu'r Gymraeg fel rhan o'u hyfforddiant. Mae llawer o'r rhain yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu haddysgu. Mae hyfforddiant yn aml yn cyfuno addysgu Cymraeg gyda chyfarwyddyd ar y dulliau o'i haddysgu fel ail iaith.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Estyn arolwg o gyrsiau a gynigir gan sefydliadau addysg uwch sy'n cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon. Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn gallu cynnig asesu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gais. Fodd bynnag, ceir gwersi cyfrwng Cymraeg cyfyng iawn ar y lefel astudio hon. Dyma'r achos yn benodol yn Ne Ddwyrain Cymru, er gwaethaf twf diweddar yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Mae'n anodd barnu union effaith y cymhellion ariannol i annog hyfforddeion i wella'u gallu yn y Gymraeg. Croesewir y gefnogaeth ariannol ac mae'n debygol o gael rhywfaint o effaith gadarnhaol. Mae llawer o ffactorau'n dylanwadu ar hyfforddeion. Mae rhai hyfforddeion yn cymell eu hunain drwy eu hir-ddymuniad i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn iddynt hyfforddi i fod yn athrawon, hwyrach nad yw rhai hyfforddeion wedi defnyddio'r Gymraeg ers amser ac mae'n bosibl y byddant yn poeni'n benodol am eu gallu mewn Cymraeg ysgrifenedig. Wrth i rai hyfforddeion symud trwy eu cwrs, teimlant y gofynion ar eu hamser yn cynyddu ac maent yn rhoi blaenoriaeth i rannau eraill o'u hastudiaethau.

### **Nodweddion da**

Gwna athrawon dan hyfforddiant gynnydd da pan gaiff gwendidau yn eu meistrolaeth o'u Cymraeg ysgrifenedig eu nodi a phan fydd tiwtoriaid yn delio â nhw'n systematig ac yn drylwyr yn ystod hyfforddiant.

Mewn rhai achosion, ceir cydweithredu hynod agos ac effeithiol rhwng y sefydliad addysg uwch ac ysgolion i sicrhau bod hyfforddeion nad yw eu meistrolaeth ar y Gymraeg yn gryf yn cael eu galluogi i wneud cynnydd da yn eu haddysgu cyfrwng Cymraeg.

Mae llawer o hyfforddeion yn mynychu cyrsiau atodol i wella'u meistrolaeth ar Gymraeg ysgrifenedig a llafar. Mae'r elfen hon wedi bod yn ddefnyddiol wrth godi lefel hyder a hyfedredd ieithyddol yr hyfforddeion, ac felly'n eu paratoi ar gyfer eu rolau addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r ymagwedd hon yn gweithio orau ar gyfer yr hyfforddeion y mae eu meistrolaeth ar y Gymraeg yn gymharol gryf. Mae gwaith allgyrsiol, fel cyfrannu at weithgareddau lleol yr Urdd, yn hyrwyddo'n effeithiol y defnydd o'r Gymraeg ac yn datblygu medrau iaith yr hyfforddeion.

Gwna rai aelodau o staff mewn sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon a chydweithwyr mewn sefydliadau eraill gyfraniadau da i gefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae enghreifftiau yn cynnwys deunyddiau hyfforddi athrawon newydd ar gyfer athrawon cynradd dan hyfforddiant sy'n addysgu'r Gymraeg fel ail iaith ac, yn fwy cyffredinol, cyhoeddiadau am addysgu cyfrwng Cymraeg. Cafwyd ychydig ddatblygu o becynnau TGCh i gefnogi dysgu'r hyfforddeion.

Gwna'r myfyrwyr gynnydd da pan fydd ganddynt diwtoriaid yn yr ysgol sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu cefnogi datblygiad eu medrau iaith Gymraeg yn y gweithle.

### **Prif feysydd pryder**

- Mae niferoedd yr athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn sy'n gallu addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn rhy isel, yn enwedig ar lefel uwchradd.

- Nid yw nifer yr athrawon dan hyfforddiant sy'n dilyn cyrsiau iaith Gymraeg mor uchel ag y mae angen iddo fod, naill ai ar gyrsiau ôl-raddedig neu yn ystod ail a thrydedd flwyddyn cyrsiau israddedig.
- Mewn sefydliadau addysg uwch, ceir diffyg cymharol o ran cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon cyfrwng Gymraeg presennol.

## 12. Dysgu yn y Gweithle

### Canfyddiadau

Mae tystiolaeth arolygu yn dangos mai ychydig hyfforddeion sy'n cyflawni unrhyw ran o'u hyfforddiant neu asesiad yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, hyd yn oed yn yr ardaloedd sy'n siarad Cymraeg yn draddodiadol. Mae llawer o hyfforddeion o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn penderfynu newid yn gyfan gwbl i'r Saesneg ar gyfer eu hyfforddiant. Yn aml, nid yw'r darparwyr yn gwneud digon i bennu'r galw am hyfforddiant dwyieithog, ac nid ydynt ychwaith yn gwneud digon i'w hyrwyddo'n weithgar. Mae'r mwyafrif yn gofyn i hyfforddeion ar eu ffurflenni cais a fyddent yn dymuno cael asesiadau neu hyfforddiant yn y Gymraeg a byddant yn ymdrechu i fodloni anghenion yr hyfforddeion os ydynt yn ymateb yn gadarnhaol. Lle nodir y galw am hyfforddiant dwyieithog yn ystod y cyfnod sefydlu neu gyfweld, mae'r darparwyr yn ceisio bodloni'r galw hwnnw ond yn aml maent yn cael anhawster wrth ddod o hyd i ddeunyddiau ac aseswyr cyfrwng Cymraeg.

Ychydig Gynghorau Sgiliau Sector a chyrff dyfarnu sy'n llunio deunyddiau'n ddwyieithog fel mater o arfer. Yn aml, mae'n rhaid i ddarparwyr ofyn am ddeunyddiau dwyieithog ac mae hyn yn aml yn arwain at oedi wrth ddarparu'r deunydd hwn os nad yw wedi'i greu neu ei gyfieithu eisoes. Lle caiff hyfforddiant ei gynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, mae'r darparwyr yn aml yn llunio eu hyfforddiant, eu hasesiadau a'u deunyddiau cyfeirio dwyieithog eu hunain, gan gynnwys y rhai ar gyfer datblygu medrau allweddol.

Mae'r darparwyr yn aml yn colli cyfleoedd i hyrwyddo dwyieithrwydd, hyd yn oed pan fyddant yn digwydd yn naturiol yn y gweithle. Mae aseswyr, adolygwyr a hyfforddwyr yn aml yn hapus i gynnal trafodaethau ac adolygiadau yn Gymraeg, ond maent yn cwblhau'r holl waith papur a'r ddogfennaeth yn Saesneg yn unig.

### Nodweddion da

Gwna'r dysgwyr gynnydd da lle mae'r safonau galwedigaethol wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg a cheir digon o hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg a all gefnogi'r gwaith. Mae rhai lleoliadau gwaith yn gweithredu'n effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg ac maent yn helpu hyfforddeion i gadw a gwella'u medrau iaith. Mae un darparwr hyfforddiant yn cynnig hyfforddiant dwyieithog ar gyfer diwydiant y cyfryngau, yng Nghaerdydd a Chaernarfon. Mae hyfforddeion yn gweithio ar ffilm a rhaglenni teledu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn datblygu medrau llafar ac ysgrifenedig da yn y ddwy iaith.

## Prif feysydd pryder

- Nid oes digon o hyfforddeion yn datblygu eu medrau yn ystod hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Nid oes digon o ddarpariaeth mewn hyfforddiant i gynnig dilyniant o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae niferoedd y fath ddarparwyr hefyd yn fach yng ngogledd-orllewin a de-orllewin Cymru.
- Mae llawer o'r hyfforddeion yn gweithio mewn mannau lle mae'r Gymraeg yn iaith pob dydd. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddwyr ac aseswyr yn hapus i drafod yn anffurfiol neu i gynnal cyfweiliadau neu adolygiadau yn y Gymraeg, ond dim ond nifer fach sy'n hyderus i hyfforddi neu asesu trwy gyfrwng y Gymraeg neu i gwblhau asesiadau a phortffolios yn Gymraeg.
- Ceir diffyg deunyddiau perthnasol i gefnogi hyfforddiant ac asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gefnogi iaith pob dydd llawer o leoedd gwaith.

## 13. Gyrfaoedd

### Canfyddiadau

Mae cwmnïau gyrfaoedd yn parhau i lunio cyhoeddiadau dwyieithog o ansawdd uchel i helpu cleientiaid i wneud penderfyniadau da o ran eu gyrfaoedd. Maent hefyd yn llunio deunyddiau dwyieithog i helpu rhoi gwybod i rieni ynghylch gwasanaethau'r cwmnïau. Caiff llawer o'r deunyddiau hyn eu llunio'n ganolog gan Gyrfa Cymru.

Mae cwmnïau gyrfaoedd yn ymroi i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai ohonynt yn gwneud ymdrechion da iawn i sicrhau y gallant fodloni anghenion iaith siaradwyr Cymraeg. Mewn lleiafrif bach o achosion, ni fu'r ymdrechion hyn yn llwyddiannus ac mae gallu'r cwmni i gynnig gweithgareddau arweiniad yn newis iaith y cleient wedi lleihau. Mae nifer o gwmnïau'n cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i staff. Mae'r staff wedi croesawu hyn, ond nid yw'n ateb tymor byr.

Mae lleiafrif o gwmnïau wedi gweithio'n dda i ddiweddar deunydd ar werth yr iaith Gymraeg yn y gweithle, ond yn gyffredinol mae hyn yn wan.

### Nodweddion da

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae pobl ifanc a rhieni'n cael mynediad i ystod dda o wybodaeth a chyhoeddiadau dwyieithog i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gyrfa effeithiol.

Yn y rhan fwyaf o leoedd, mae pobl ifanc a rhieni sy'n dymuno cael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cael yn hawdd.

Mae lleiafrif o gwmnïau'n rhoi ystyriaeth dda i wybodaeth am y farchnad lafur o ran rhagolygon cyflogaeth siaradwyr Cymraeg, a'r swyddi lle mae prinder siaradwyr Cymraeg.

Mae cwmnïau'n gallu llunio cynlluniau gyrfa yn Gymraeg pan fydd cleientiaid neu rieni'n gofyn amdanynt.

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau'n nodi anghenion iaith y cleientiaid cyn ymgymryd â gweithgareddau arweiniad manwl gyda nhw.

### **Meysydd pryder**

- Nid yw pob cwmni'n ddigon rhagweithiol wrth gysylltu dwyieithrwydd â chyfleoedd cyflogaeth.
- Nid yw'r galw am wasanaethau gyrfaoedd dwyieithog mewn ysgolion uwchradd yn cael eu bodloni ym mhob achos.
- Nid yw hysbysebion swyddi gwag i gleientiaid yn ddwyieithog yn aml.
- Mae cwmnïau'n parhau i gael anhawster wrth recriwtio staff sy'n ddwyieithog.

## **14. Casgliad**

Cafwyd llawr o welliannau mewn safonau mewn Cymraeg fel pwnc ac yn narpariaeth addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog dros y ddwy flynedd diwethaf. Gwnaed cynnydd da mewn cysylltiad â'r nifer fawr o brosiectau a ddechreuwyd fel rhan o'r camau a nodwyd yn Iaith Pawb. Mae'r her yn parhau mewn perthynas â'r momentwm ar gyfer newid a gwella a fydd o gymorth i wireddu gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol am Gymru wir ddwyieithog.